

2020 Rhif (Cy.)

2020 No. (W.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Y
Fenni, Sir Fynwy) (Gwahardd
Cerbydau a Beicwyr Dros Dro)
2020

The A40 Trunk Road
(Abergavenny, Monmouthshire)
(Temporary Prohibition of Vehicles
& Cyclists) Order 2020

Gwnaed 28 Ebrill 2020

Made 28 April 2020

Yn dod i rym 5 Mai 2020

Coming into force 5 May 2020

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffordd yr A40, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the A40 trunk road, are satisfied that traffic on a specified length of the trunk road should be prohibited because of works proposed on or near the road.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by sections 14(1) and (4) of the Road Traffic Regulation Act 1984(!), make this Order.

Enwi, Cychwyn a Dehongli

Title, Commencement and Interpretation

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Y Fenni, Sir Fynwy) (Gwahardd Cerbydau a Beicwyr Dros Dro) 2020 a daw i rym ar 5 Mai 2020.

1. The title of this Order is the A40 Trunk Road (Abergavenny, Monmouthshire) (Temporary Prohibition of Vehicles & Cyclists) Order 2020 and it comes into force on 5 May 2020.

2. Yn y Gorchymyn hwn—

2. In this Order—

ystyr “cerbyd esempt” (“*exempted vehicle*”) yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

“exempted vehicle” (“*cerbyd esempt*”) means any vehicle being used by the emergency services or in connection with the works giving rise to this Order;

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw'r cyfnod sy'n dechrau am 20:00 o'r gloch ar 5 Mai 2020 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the A40 Raglan to Llandoverly Trunk Road at Abergavenny, Monmouthshire that extends from a point 40 metres north of the centre-point of Hardwick Roundabout to a point 14 metres east of the centre-point of Union Road Roundabout;

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c.27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c.26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c.32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw Cefnffordd yr A40 Rhaglan i Lanymddyfri yn y Fenni, Sir Fynwy sy’n ymestyn o bwynt 40 o fetrau i’r gogledd o ganolbwynt Cylchfan Hardwick hyd at bwynt 14 o fetrau i’r dwyrain o ganolbwynt Cylchfan Union Road.

Gwaharddiadau

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd ar y darn o’r gefnffordd a bennir yn erthygl 2.

4. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedal ar y darn o’r gefnffordd a bennir yn erthygl 2.

Cymhwyso

5. Ni fydd y cyfyngiadau yn erthyglau 3 a 4 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i’r graddau hynny y mae’r arwyddion traffig yn eu dangos.

Cyfnod Para’r Gorchymyn hwn

6. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

28 Ebrill 2020



Nicci Hunter
Arweinydd Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

“works period” (“*cyfnod y gwaith*”) means the period commencing at 20:00 hours on 5 May 2020 and ending when the temporary traffic signs are permanently removed.

Prohibitions

3. No person may, during the works period, drive any vehicle on the length of the trunk road specified in article 2.

4. No person may, during the works period, ride any pedal cycle on the length of the trunk road specified in article 2.

Application

5. The prohibitions in articles 3 and 4 apply only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

Duration of this Order

6. The maximum duration of this Order is 18 months.

Signed under authority of the Minister for Economy, Transport and North Wales, one of the Welsh Ministers.

Dated the

28 April 2020



Nicci Hunter
Business Team Leader
Welsh Government

GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A40 (Y FENNI, SIR FYNWY) (GWAHARDD CERBYDAU A BEICWYR DROS DRO) 2020

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A40, neu gerllaw iddi, yn y Fenni, Sir Fynwy.

Effaith y Gorchymyn yw gwahardd dros dro bob cerbyd (ac eithrio'r rhai a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys ac ar gyfer y gwaith) a phob beiciwr rhag mynd ar y darn o gefnffordd yr A40 sy'n ymestyn o bwynt 40 o fetrau i'r gogledd o ganolbwynt Cylchfan Hardwick hyd at bwynt 14 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt Cylchfan Union Road, y Fenni. Sicrheir mynediad i fangreoedd ar hyd y darn a fydd ar gau.

Y llwybr arall ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r gorllewin fydd mynd ar yr A465 tua'r gorllewin i Gyffordd Llan-ffwyst ac ar yr A4143 tua'r gogledd i Gylchfan Union Road: i'r gwrthwyneb ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r dwyrain.

Disgwylir y bydd y gwaharddiadau dros dro yn dod i rym ar 5 Mai 2020 ac yn weithredol dros nos (20:00 – 06:00 o'r gloch) hyd 25 Mai 2020 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Dim ond yn ystod y cyfnod a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad ymlaen llaw am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos cyn gwneud unrhyw waith a ailamserlennir.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan [Llywodraeth Cymru](https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd) ar <https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd>.

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.



J SADDLER
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

THE A40 TRUNK ROAD (ABERGAVENNY, MONMOUTHSHIRE) (TEMPORARY PROHIBITION OF VEHICLES & CYCLISTS) ORDER 2020

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984 which is necessary to undertake works on or near the A40 trunk road at Abergavenny, Monmouthshire.

The effect of the Order is to temporarily prohibit all vehicles (other than those being used by the emergency services and for the works) and cyclists from proceeding on the length of the A40 trunk road that extends from a point 40 metres north of the centre-point of Hardwick Roundabout to a point 14 metres east of the centre-point of Union Road Roundabout, Abergavenny. Access will be maintained to premises along the length of the closure.

The alternative route for westbound traffic will be via the westbound A465 to Llanfoist Junction and northbound A4143 to Union Road Roundabout: vice versa for eastbound traffic.

It is expected that the temporary prohibitions will come into force on 5 May 2020 and operate overnight (20:00 – 06:00 hours) until 25 May 2020 or until the temporary traffic signs are permanently removed.

Although the Order is only expected to operate during the period specified above it will remain valid for a maximum period of 18 months, as a contingency, should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required. Advance notice of any changes to times and dates will be displayed before any rescheduled work.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at <https://gov.wales/road-orders>.

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.



J SADDLER
Transport
Welsh Government

